



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

PROSIECT WYLFA NEWYDD

NODYN O'R CYFARFOD RHAGARWEINIOL

Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol a Draffodwyd a'r Cyngor a Roddwyd

Cais	Gorsaf Bêr Niwclear arfaethedig Wylfa Newydd
Cyfeirnod	EN01007
Amser a Dyddiad	10.00am 22 Hydref 2018
Lleoliad	Maes Sioe Ynys Môn, Gwalchmai, Caergybi, LL65 4RW

Nid yw'r nodyn hwn yn drawsgrifiad llawn o'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Crynodeb ydyw o'r pwyntiau allweddol a draffodwyd a'r ymatebion a roddwyd. Mae recordiad sain o'r digwyddiad ar gael ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

1. Croeso a Chyflwyniadau

Agorwyd y Cyfarfod Rhagarweiniol gan **Frances Fernandes** (FF), sef aelod arweiniol y panel sy'n ffurfio'r **Awdurdod Archwilio** (ExA), a chroesawodd y rhai a oedd yn bresennol ac esboniodd y trefniadau ymarferol ar gyfer y cyfarfod, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Cyflwynodd **FF** ei hun fel aelod arweiniol y Panel, a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, ac aelodau eraill y Panel: **Peter Braithwaite** (PB), **Joanna Dowling** (JD), **Michael Hayes** (MH) a **Clive Sproule** (CS).

Dywedodd **FF** mai hwn oedd y Cyfarfod Rhagarweiniol ar gyfer y cais a wnaed gan Horizon Nuclear Power ar gyfer prosiect Wylfa Newydd, ac esboniodd y byddai'r pum aelod o'r Panel yn cymryd rhan yn y cyfarfod ac y byddai pob un yn ymwneud yn llawn ac yn weithgar â'r archwiliad trwy ystyried deunydd ysgrifenedig, gwrandao ar gyflwyniadau llafar ac arwain gwrandawiaadau dilynol.

Esboniodd **FF** fod panel o bum unigolyn wedi cael ei benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i fod yr ExA ar gyfer yr archwiliad hwn. Mae gan y panel brofiad helaeth; gan gynnwys gweithio mewn gwahanol gyfundrefnau cynllunio

wrth archwilio prosiectau seilwaith cenedlaethol eraill yng Nghymru a Lloegr, ac roedd un aelod o'r Panel wedi bod yn rhan o'r archwiliad o gais gorsaf bŵer niwclear Hinkley Point C.

Esboniodd **FF** fod **CS** yn arolygydd o swyddfa'r Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru. Mae ef, a dau aelod o'r Tîm Achos, yn siarad Cymraeg. Roedd cyfieithydd Cymraeg yn bresennol hefyd ac fe'i cyflwynwyd. Mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cydradd yng Nghymru. Roedd croeso i bobl gyfrannu yn Gymraeg, ac roedd cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg ar gael trwy'r clustffonau yn yr ystafell. Bydd recordiad sain o'r trafodion ar gael ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio yn fuan ar ôl y cyfarfod.

Esboniodd **FF** mai unig ddiben y cyfarfod oedd ystyried materion gweithdrefnol yn ymwneud â'r ffordd y dylai'r archwiliad gael ei gynnal, gan gynnwys yr amserlen, ac nid trafod rhinweddau'r cynnig.

Esboniodd **FF** fod y Panel wedi darllen dogfennau'r cais a'r holl Gynrychiolaethau Perthnasol, ac y bu'r rhain yn ddefnyddiol iawn wrth eu galluogi i baratoi ar gyfer y cyfarfod.

Cyhoeddodd **FF** fod **yr Ymgeisydd** (APP) wedi gwneud cyflwyniad ynglŷn â newidiadau posibl i'r cais, ac y byddai hyn yn cael ei drafod fel eitem ychwanegol ar ddiwedd Eitem 3 yr agenda.

2. Sylwadau ynglŷn â'r Broses Archwilio

Esboniodd **FF** fod Deddf Cynllunio 2008 (PA2008) yn cyflwyno cyfundrefn wahanol ar gyfer ystyried Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol arfaethedig ac, oherwydd na fyddai pawb yn gyfarwydd â gweithdrefnau PA2008, amlinellodd sut y byddai'r Panel yn symud ymlaen.

Esboniodd **FF** y bydd y Panel yn ystyried y cais a'r holl gynrychiolaethau a wnaed iddynt ynglŷn ag ef. Byddant yn ymchwilio i faterion sydd, yn eu barn nhw, yn bwysig ac yn berthnasol i'w casgliadau a'u hargymhelliad terfynol; yn enwedig y rhai hynny sy'n ddadleuol, yn ystod y 6 mis nesaf. Ar ddiwedd yr archwiliad, bydd gan yr ExA 3 mis i gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn amlinellu eu casgliadau a'u hargymhelliad ynglŷn â ph'un a ddylid rhoi caniatâd. Yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Nid yw'r Panel wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ynglŷn â rhinweddau'r cais.

Eglurodd **FF** mai proses holgar ydyw, ac y bydd y Panel yn arwain wrth sefydlu beth sy'n bwysig ac yn berthnasol i'r penderfyniad y mae angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ei wneud, a'i bod hefyd yn broses ysgrifenedig i raddau helaeth.

Dyweddodd **FF** y byddai'n cyhoeddi'r llythyr Rheol 8, a wneir o dan Reolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010, ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol, a fyddai'n cynnwys cwestiynau ysgrifenedig y Panel i ystod o bartion, yn deillio o archwiliad y Panel ei hun o ddogfennau'r cais a'r Cynrychiolaethau Perthnasol a wnaed gan lawer o Bartion â Buddiant ac Ymgygoreion Statudol ac a drefnir yn ôl Aseiad Cychwynnol o Brif Faterion y Panel. Nodwyd os bydd y Panel yn gofyn cwestiwn sy'n ymdrin â'r un testun â phwynt y mae Parti â Buddiant yn dymuno ei wneud yn ei Gynrychiolaeth Ysgrifenedig, y dylai sicrhau ei fod yn ateb y cwestiwn yn y termau y'u gofynnir ynddo. Caiff Unigolion â Buddiant gynnwys y pwynt yn eu Cynrychiolaeth Ysgrifenedig o hyd, ond mae'n bwysig i ymatebion fod yn gyson.

Dyweddodd **FF** fod y llythyr Rheol 8 yn gosod terfyn amser ar gyfer derbyn ymatebion i'r cwestiynau hynny. Pan dderbynnir ymatebion, fe'u cyhoeddir ar dudalen y Prosiect ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio.

Cadarnhaodd **FF** y bwriad i gynnal nifer o wrandawiadau, y cyntaf o'r rhain ar ddydd Mercher (24 Hydref 2018) i ystyried y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft ac yna dau wrandawiad Llawr Agored ar ddydd Iau (25 Hydref 2018).

Esboniodd **FF** fod y gwrandawiadau hyn yn gosod y sylfeini ar gyfer Cynrychiolaethau Ysgrifenedig, cwestiynau a sylwadau. Dylai Parti'n â Buddiant geisio ymgysylltu'n llawn drwy gydol y prosesau ysgrifenedig yn hytrach nag aros am wrandawiad penodol fel cyfle i ddylanwadu ar y trafodion. Dylai parti'n hefyd ddilyn y dogfennau tystiolaeth fel y maent yn ymddangos ar dudalen y Prosiect ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio fel y gallant weld sut mae'r archwiliad yn symud ymlaen.

Esboniodd **FF** fod dyletswydd ar yr ExA i sicrhau bod yr archwiliad yn deg ac yn drylwyr. Bydd nifer sylweddol o gwestiynau ysgrifenedig. Bydd y rhain yn bellgyrhaeddol; bydd rhai ohonynt yn canolbwyntio ar faterion eithaf sylfaenol tra bydd eraill yn ymdrin â phwyntiau eithaf manwl.

Cyhoeddodd **FF** y bydd yr ExA yn cynnal ymweliadau safle yn ystod y 6 mis nesaf o'r archwiliad, ac y gall y rhain fod gyda chwmni neu'n ddi-gwmni. Ddoe (22 Hydref 2018), cynhaliodd yr ExA ddiwrnod llawn o archwiliadau safle di-gwmni i ymgysylltu ag elfennau o'r cais. Ymwelodd yr ExA â'r canlynol, ymhlith manau eraill:

- Y safle parcio a theithio arfaethedig yn Dalar Hir;
- Caergybi (gan gynnwys Parc Cybi);
- Porth-y-Pistyll a Bae Cemlyn; a
- Phenrhyn Wylfa, Tregele, Cemaes ac Amlwch.

Bydd nodyn byr o'r ardaloedd yr ymwelodd yr ExA â nhw, gan gynnwys yr adeg o'r dydd a'r tywydd, yn cael ei gyhoeddi ar dudalen y Prosiect ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio.

Esboniodd **FF** mai craidd yr adroddiad a gyflwynir i'r Ysgrifennydd Gwladol fydd argymhelliad yr ExA ynglŷn â ph'un a ddylai'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft gael ei gymeradwyo. Bydd hefyd yn cynnwys argymhellion ynglŷn â pha dir y dylid ei gaffael yn orfodol os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cymeradwyo'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Hyd yn oed os nad yw'r ExA yn argymhell y dylid rhoi caniatâd, mae'n rhaid iddo gynnig y Gorchymyn Caniatâd Datblygu mwyaf priodol, yn ei farn ef, rhag ofn y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn mynd yn erbyn yr argymhelliad hwnnw. Y pwynt pwysig yw bod yr holl faterion sy'n ymwneud â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft yn rhannau annatod o'r Archwiliad.

Esboniodd **FF** nad yw'r ExA yn bwriadu dyblygu materion sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y cyrff sy'n gyfrifol am reoleiddio niwclear yng Nghymru. Mae'r cyrff hyn yn cynnwys y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae adran 2.7 y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Pŵer Niwclear, sef EN-6, yn amlinellu cyfrifoldebau'r sefydliadau hyn yn fanylach. Nid yw'n rhan o gylch gorchwyl yr ExA i ystyried neu gwestiynu polisi'r llywodraeth ar bŵer niwclear.

Esboniodd **FF** fod digwyddiadau diweddar, llyfrgell yr archwiliad ac amserlen yr archwiliad ar gael ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio. Gellir cael mynediad at y wefan ledled gogledd Cymru ac Ynys Môn mewn amryw lyfrgelloedd.

3. Gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i gyngor a51 a cheisiadau gweithdrefnol

Dywedodd **PB** fod yr Arolygiaeth Gynllunio wedi derbyn y cais fel un sy'n addas i'w archwilio, mewn ymateb i gyngor a roddwyd o dan a51 PA2008. Yn dilyn hynny, mae'r Ymgeisydd wedi cyflwyno sawl dogfen wedi'u diweddarau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Atodiad i'r Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol [AS-010],
- Llyfr Cyfeirio wedi'i ddiweddarau [AS-012, AS-013, AS-014],
- Cynlluniau Tir wedi'u diweddarau [AS-009]; a
- Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddarau i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft [AS-011].

Mae'r dogfennau hyn wedi cael eu derbyn yn ffurfiol i'r Archwiliad gan yr ExA. Os hoffai unrhyw barti â buddiant wneud sylwadau ar y dogfennau penodol hyn, gofynnir iddynt wneud hynny yn rhan o'u Cynrychiolaethau Ysgrifenedig erbyn Terfyn Amser 2 (4 Rhagfyr 2018).

Amlinellodd **PB** nifer o benderfyniadau gweithdrefnol a wnaed gan yr ExA fel y'u nodwyd yn Atodiad E y llythyr Rheol 6. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hysbysiad o'r gwrandawriad Gorchymyn Caniatâd Datblygu a dau wrandawriad Llawr Agored.
- Cais am Ddatganiadau Tir Cyffredin gyda sefydliadau sy'n cynrychioli'r iaith Gymraeg.
- Ceisiadau i ddod yn bartion â buddiant o dan a102B(4) PA2008.

Eitem Ychwanegol – Newidiadau arfaethedig i'r cais

Dyweddodd **FF** fod yr Ymgeisydd wedi rhoi gwybod i'r ExA ar 17 Hydref ei fod eisiau gwneud dau newid i'r cais mewn perthynas â'r Strategaeth Ffrwydro a Symudiadau Llongau Morol. Yn ogystal â hynny, roedd yn ystyried tri newid arall i'w cyflwyno yn ddiweddarach yn ystod yr Archwiliad. Mae llythyr yr Ymgeisydd wedi'i gyhoeddi ar dudalen y Prosiect ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio.

Dyweddodd **FF** fod yr ExA yn cael ei benodi i archwilio ac adrodd ar y cais fel y'i cyflwynwyd ac ni all archwilio prosiect sylweddol wahanol. I esbonio'r cyd-destun ymhellach, mae paragraff 106 y Canllawiau Archwilio yn datgan:

"Pan fydd Ymgeisydd yn cyflwyno newid arfaethedig i gynnig, bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu ar ba mor sylweddol yw'r newid a ph'un a yw o'r fath raddau sy'n gyfystyr â phrosiect newydd neu a ellir ei ystyried o hyd o dan y cais presennol."

Cyflwynodd **FF** y ddau gais ysgrifenedig am yr hyn y mae'r Ymgeisydd yn ei ddisgrifio fel newidiadau nad ydynt yn sylweddol i'r Strategaeth Ffrwydro a Symudiadau Llongau Morol, fel y'u hamlinellir yn Atodiad 1 a 2 llythyr yr Ymgeisydd, dyddiedig 17 Hydref 2018 [AS-019].

Gofynnodd **FF** i'r Ymgeisydd gadarnhau'n fyr yr hyn a amlinellwyd yn Atodiad 1 a 2.

Dyweddodd **Michael Humphries QC** (APP), sy'n cynrychioli'r Ymgeisydd, fod y ddau gais am newidiadau nad ydynt yn sylweddol yn ymwneud ag agweddau manwl ar adeiladwaith yr orsaf bŵer. O ran y Strategaeth Ffrwydro, roedd yr Ymgeisydd eisiau newid y cyfnod ffrwydro arfaethedig presennol o 10:00-16:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a 10:00-13:00 ar ddydd Sadwrn, i 09:00-19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a 09:00-13:00 ar ddydd Sadwrn.

Esboniodd **APP** fod amserau'r cynnig cyntaf yn adlewyrchu Nodyn Cyngor Technegol Mwynau Llywodraeth Cymru, a bod yr ail gynnig yn glynu'n agosach at y Safonau Prydeinig ar gyfer gwaith mwynau. Pwysleisiodd **APP** na fyddai unrhyw ffrwydro ychwanegol y tu hwnt i'r uchafswm o dri ffrwydriad y dydd a gynigiwyd yn wreiddiol.

Esboniodd **APP** fod yr ail newid arfaethedig yn ymwneud â defnyddio'r Cyfleuster Dadlwytho Morol (MOLF) i gynyddu hygyrchedd o'r môr, yn

ystod y cyfnod adeiladu. Dywedodd **APP** mai'r cyfartaledd a fwriadwyd yn wreiddiol oedd 2 long y dydd; fodd bynnag, ni fyddai hyn yn wir mewn gwirionedd a gallai fod hyd at 8 long (16 o symudiadau) bob dydd. Felly, mae'r ail gais yn ymwneud â chynyddu symudiadau i uchafswm o 16 y dydd. Pwysleisiwyd y byddai cyfanswm y symudiadau wythnosol yn aros yr un fath yn gyffredinol, a gallai fod sawl symudiad ar rai diwrnodau a dim ar rai eraill; byddai'n gyfartaledd.

Gofynnodd **FF** i'r Ymgeisydd a oedd ganddo unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r amserlen o ran y ddau newid. Esboniodd **APP** er nad oedd gofyniad statudol i ymgynghori ynglŷn â'r newidiadau hyn, ei fod wedi gwneud hynny beth bynnag a bod angen i'r ExA benderfynu bellach.

Gofynnodd **FF** am amserlen gan yr Ymgeisydd mewn perthynas â'r ceisiadau am newidiadau ychwanegol posibl. Ymatebodd **APP** drwy ddweud er mwyn cwblhau'r gwaith yn derfynol a chaniatáu 28 niwrnod ar gyfer ymgynghori, y targed oedd canol mis Ionawr (Terfyn Amser 4).

Gofynnodd **FF** a hoffai unrhyw barti arall wneud sylwadau ynglŷn ag amseru arfaethedig yr Ymgeisydd o ran y ddau gais hyn am newidiadau; ni wnaed unrhyw sylwadau.

Gofynnodd **FF** i'r Ymgeisydd grynhoi'r tri newid a gynigiwyd, yn ymwneud â phatrymau sifft, danfoniadau nwyddau trwm ac oriau gwaith y prif safle, fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 9-30 llythyr yr Ymgeisydd, dyddiedig 17 Hydref 2018.

Esboniodd **APP** fod y newidiadau posibl canlynol yn cael eu hystyried:

1. Patrymau sifft

Canfuwyd bod y patrymau sifft arfaethedig blaenorol yn gorgyffwrdd, ac roedd Menter Newydd wedi cynghori'r Ymgeisydd y byddai hyn yn anghynhyrchiol. Yn wreiddiol, cynigiwyd tri phatrwm sifft o 10 awr, ac mae'r Ymgeisydd bellach yn cynnig 2 sifft ddydd gyfnodol ac 1 sifft nos 10.5 awr yr un yn 2020, a thair sifft ddydd (10.5 awr) a 2 sifft nos (10 awr) yn 2023 [REP1-014]

2. Oriau gwaith y prif safle

Roedd yr Ymgeisydd yn cynnig ymestyn yr oriau mewn perthynas â chloddwaith cyffredinol, gwaith stancio morol, adeiladu'r MOLF, sefydlu'r safle, cloddio dwfn a chyfleusterau cymorth er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd ac effeithlonrwydd yn ystod y cyfnod adeiladu.

3. Symudiadau HGV

Cais arfaethedig i ymestyn yr oriau ar gyfer symudiadau HGV yn ystod yr wythnos ac ychwanegu cyfnod danfon arall ar ddydd Sadwrn. Pwysleisiwyd unwaith eto y byddai nifer y symudiadau HGV yr un fath,

ond byddai ymestyn yr oriau yn rhoi mwy o hyblygrwydd ac effeithlonrwydd.

Esboniodd **FF** y byddai'r ExA yn ystyried cyflwyniadau'r Ymgeisydd ac yn nodi sut mae'n bwriadu symud ymlaen yn ei lythyr Rheol 8.

4. Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion

Esboniodd **MH** fod asesiad cychwynnol y Panel o'r prif faterion sy'n codi o'r cais wedi cael ei ddisbarthu fel Atodiad B llythyr yr Arolygiaeth Gynllunio, dyddiedig 25 Medi 2018. Yn ôl paragraff 43 Deddf Cynllunio 2008: *Canllawiau ar gyfer Archwilio Ceisiadau am Ganiatâd Datblygu* (MHLG 2015) '*ni fydd yn ddatganiad diffiniol o'r materion i'w hystyried*' gan fod rhaid i'r ExA fod yn rhydd i glywed yr holl dystiolaeth sydd, yn ei farn ef, yn berthnasol i ystyried yr achos.

Esboniodd **MH** fod y rhestr o brif faterion wedi'i seilio'n fras ar y materion a amlinellir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer Ynni (EN-1) ac ar gyfer Cynhyrchu Pŵer Niwclear (EN-6) ac asesiad cychwynnol yr ExA ei hun. Rhestr ragarweiniol ydoedd, wedi'i chyflwyno yn nhrefn yr wyddor heb unrhyw flaenoriaeth. Er bod y rhestr hon yn debygol o fod yn sail i adroddiad yr ExA, mae'n bosibl na fydd o reidrwydd yn gofyn am wybodaeth am bob un o'r materion hyn yn ystod yr Archwiliad. Bydd yr ExA ond yn gofyn cwestiynau os bydd ganddo ymholiad neu os bydd eisiau cael mwy o wybodaeth. Os yw'r Archwiliad yn ddistaw ynghylch meysydd pwnc penodol, nid yw hynny'n golygu eu bod yn cael eu hanwybyddu.

Cadarnhaodd **APP** nad oedd ganddo unrhyw sylwadau i'w gwneud ynglŷn â'r prif faterion a amlinellwyd yn Atodiad B.

Esboniodd **MH** fod yr ExA wedi derbyn nifer o gyflwyniadau ynglŷn â'i asesiad cychwynnol o'r prif faterion, oddi wrth **Gyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru, Mr Roger Dobson (RD)** a **Heddlu Gogledd Cymru**, ymhlith eraill. Ar ôl i bob un o'r rhain wneud sylwadau, byddai partion eraill sy'n bresennol yn cael gwahoddiad i amlinellu eu cyflwyniad yn fyr.

Cyflwynodd **Timothy Corner QC (LIC)** ei hun fel adfocad Llywodraeth Cymru (LIC), a oedd wedi codi'r canlynol yn ei Chynrychiolaeth Berthnasol:

- perygl llifogydd;
- TG a band eang;
- traffig – yn enwedig y gallai fod yn briodol egluro yn y rhestr o faterion fod y rhwydwaith priffyrdd y cyfeirir ato yn y rhestr yn cynnwys y Rhwydwaith Cefnffyrdd Strategol; a'r
- effaith gronnol.

Cyflwynodd **Martin Kingston QC** (IACC) ei hun fel adfocad Cyngor Sir Ynys Môn (IACC). Tynnodd **IACC** sylw at lythyr Mr Williams, dyddiedig 12 Hydref 2018, i'r Arolygiaeth Gynllunio [EV-003]. Dymunai bwysleisio'r pryderon a godwyd yn y llythyr. Dywedodd **IACC** er bod llawer o bynciau, nad oedd unrhyw ystyriaethau gofodol penodol ar hyn o bryd. Roedd Cyngor Sir Ynys Môn yn pryderu'n arbennig am effeithiau ar ogledd Ynys Môn, sy'n ysgwyddo baich llawer o'r materion a godwyd yn y llythyr. Awgrymodd **IACC** bwnc a fyddai'n ymwneud yn ofodol ac yn benodol â gogledd Ynys Môn ac, yn ogystal, bod effeithiau cronol yn bryder mawr i'r rhanbarth ac yn enwedig gogledd Ynys Môn.

Yna, cyfeiriodd **IACC** at effeithiau economaidd-gymdeithasol, sy'n faterion eithriadol o bwysig ym marn y Cyngor; ystyrir bod nifer o benawdau o fewn 'Effeithiau Economaidd-Gymdeithasol' yn faterion pwysig ynddynt eu hunain, er enghraifft, cyflogaeth, hyfforddiant, tai, twristiaeth a'r iaith Gymraeg. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn credu y bydd angen rhoi ystyriaeth benodol i oblygiadau cyd-destun deddfwriaethol Cymru, sef yn bennaf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Dywedodd **IACC** fod hefyd angen ystyried y Cynllun Datblygu ar y Cyd cyfredol a chanllawiau cynllunio atodol, sydd wedi ystyried Wylfa Newydd a'i goblygiadau yn benodol ac y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn credu y dylai gael ei amlygu i'w ystyried.

Cyfeiriodd **IACC** at lythyr Mr Williams unwaith eto, a phwysleisiodd ba mor bwysig ydyw i'r Cyngor fod Wylfa Newydd yn arwain at waddol. Mae cefnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn wedi'i seilio ar y dybiaeth o fudd priodol i gyflogaeth a materion eraill yn y pen draw, ac mae'n credu y bydd y ffordd y mae'r gwaddol hwnnw'n datblygu yn fater arwyddocaol iawn.

Gwnaeth **IACC** bwynt olaf ynglŷn â Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, a dderbyniwyd i'w archwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn ddiweddar. Mae'r Cyngor Sir yn pryderu am y graddau y mae'r ddau brosiect hyn yn cysylltu'n briodol â'i gilydd.

Cyflwynodd **Mr Roger Dobson** (RD) ei hun nid yn unig fel rhywun sy'n ei gynrychioli ei hun, ac yntau'n berchen ar eiddo yn agos i safle datblygu Wylfa Newydd, ond hefyd fel cynrychiolydd Cyngor Cymuned Llanbadrig.

Dywedodd **RD** gan ei fod yn sylweddoli y gallai fod ganddo ragfarn bersonol a safbwynt rhagfarnlyd posibl ynglŷn â'r datblygiad, ei fod wedi cael caniatâd arbennig gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn i siarad ar ran y Cyngor Cymuned.

Cododd **RD** y materion canlynol:

1. Mae gan Bartneriaeth Gogledd Ynys Môn o Gynghorau Cymuned a Thref bryderon ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth a ddarparwyd gan Horizon, yn enwedig ynglŷn â'r effeithiau ar 67 derbynnydd yn Nhrefle a Chemaes, a fyddai'n dioddef effeithiau niweidiol am 8

mlynedd; ac ynglŷn â dirgryniadau difrifol posibl; ysgrifennodd **RD** at Horizon ynglŷn â hyn ar 01 Gorffennaf 2018, ond nid yw wedi derbyn ymateb.

2. Cynllun Cymorth Cymdogaeth Horizon (2014), y mae Mr Dobson a'r rhai y mae'n eu cynrychioli yn credu ei fod wedi dyddio.
3. Yr effaith ar gymunedau lleol, yn enwedig Cemaes, Tregele a Llanfechell, o ganlyniad i'r 4,000 o gontractwyr y disgwylir iddynt fod yn byw ar y safle a'r 9,000 a fydd yn gweithio ar y safle.
4. Effeithiau traffig ar yr A5025.
5. Newid patrymau sifft – ni awgrymir newid nifer yr oriau gwaith, yr ystyrir eu bod yn ormodol ac yn anniogel.

Dywedodd **Jennifer Holgate**, sy'n cynrychioli **Heddlu De Cymru** (NWP), fod **NWP** yn pryderu ynglŷn â'r canlynol:

1. Dylai'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (Prif Fater 5) fynnu amser penodol ar fwy nag un achlysur i drafod y Cytundeb Adran 106 arfaethedig a'i berthynas â chyflawni'r mesurau lliniaru a amlygwyd yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft.
2. Effeithiau Economaidd-Gymdeithasol – mae Heddlu De Cymru yn cefnogi sylwadau blaenorol a wnaed gan Gyngor Sir Ynys Môn ac wedi paratoi asesiad manwl o'r datblygiad o safbwynt yr heddlu a fydd yn cael ei gyflwyno erbyn Terfyn Amser 1.
3. Traffig a Thrafnidiaeth – mae Heddlu De Cymru yn pryderu y gallai'r data a ddefnyddiwyd yn yr asesiad trafndiaeth a gyflwynwyd fod wedi'i danamcangyfrif. Mae Heddlu De Cymru wedi cyfarwyddo ymgynghoriaeth drafndiaeth annibynnol i adolygu'r wybodaeth hon yn llawn a phrofi ei chywirdeb. Mae'n gofyn am Wrandawriad Mater Penodol cyn gynted â phosibl i ystyried p'un a yw'r asesiad trafndiaeth yn addas i'r diben.
4. Dylai'r effeithiau cronol rhwng Wylfa Newydd a Gorchymyn Caniatâd Datblygu Cysylltiad Gogledd Cymru fod yn brif fater ynddynt eu hunain. Mae Heddlu De Cymru, yn ogystal â phartion eraill, yn cynnal asesiad cronol manylach i sicrhau ei fod yn gadarn. Dylid ystyried p'un a ddylai hyn fod yn destun Gwrandawriad Mater Penodol yn ddiweddarach, os yw'n bosibl.

Diolchodd **MH** i Heddlu De Cymru a phwysleisiodd bwysigrwydd y Datganiad Tir Cyffredin a chyflwyno dogfennau nad ydynt eto'n rhan o'r Archwiliad cyn gynted â phosibl; yn enwedig y canllawiau cynllunio atodol yn ymwneud â Gogledd Ynys Môn (*Wylfa Newydd : Canllawiau Cynllunio Atodol*; Mai 2018) a'r adroddiadau ynglŷn â materion economaidd-gymdeithasol.

Cynrychiolwyd **Cyfoeth Naturiol Cymru** (NRW) gan yr adfocad **Gwion Lewis** a gododd 2 fater:

1. Perygl llifogydd – mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno â safbwyntiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r mater hwn.

2. Yr effaith ar ardaloedd dyfrol – yn enwedig materion sy'n codi o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.

Pwysleisiodd **Stephanie Hall**, sef cwnsler **Land and Lakes Limited (LaL)**, yr angen i asesu dewisiadau amgen rhesymol – yn enwedig o ran campws oddi ar y safle ar gyfer llety dros dro, yn hytrach na campws ar y safle, ac y bydd **LaL** yn craffu ar effeithiau traffig ac effeithiau economaidd-gymdeithasol yn unol â'r polisi cynllunio lleol perthnasol.

5. Amserlen ddrafft ar gyfer archwilio'r cais

Cynigiodd **JD** amlinellu amserlen ddrafft yr ExA o ran cyflwyniadau ysgrifenedig; yna, byddai **CS** yn amlinellu'r amserlen ddrafft ar gyfer Gwrandawiadau a byddai **JD** yn gorffen trwy ymdrin â sut mae'r ExA yn bwriadu cynnal Archwiliadau Safle.

Esboniodd **JD**, er mwyn sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn deall y broses, ei bod hi'n bwriadu symud ymlaen ar y sail mai hwn yw'r profiad cyntaf o archwilio prosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol i bawb sy'n bresennol.

Esboniodd **JD** mai'r Archwiliad yw'r cyfnod pan fydd yr ExA yn casglu tystiolaeth ac yn profi gwybodaeth ynglŷn â'r cais gan Bartion â Buddiant. Cynhelir y broses archwilio yn ysgrifenedig yn bennaf. Fodd bynnag, mae cyfle i'r ExA gynnal Gwrandawiadau pan ystyrir eu bod yn angenrheidiol neu pan ofynnir amdanynt.

Dywedodd **JD** y bydd yr ExA yn cyhoeddi cwestiynau ysgrifenedig ynglŷn â'r cais. Nod y cwestiynau ysgrifenedig yw casglu a chadarnhau gwybodaeth am y cais. Byddant wedi'u cyfeirio at yr Ymgeisydd yn bennaf, ond mae'n bosibl y bydd cwestiynau ar gyfer cyrff statudol, awdurdodau lleol a phartion â buddiant hefyd. O ganlyniad, mae'r ExA yn gofyn i'r partion ddarllen y cwestiynau i gyd. Os bydd partion eisiau cyfrannu neu wneud sylwadau ar gwestiwn nad yw wedi'i gyfeirio atyn nhw, mae croeso iddynt wneud hynny. Mae'r Panel yn fodlon derbyn yr holl gyflwyniadau ysgrifenedig neu lafar yr hoffai partion eu gwneud yn Gymraeg neu Saesneg.

Dywedodd **JD** y gallai'r ExA gyhoeddi mwy nag un gyfres o gwestiynau, os bydd yn credu bod angen. Fel y gwêl y partion o eitem 14 ar yr amserlen ddrafft, mae cyfres arall o gwestiynau ysgrifenedig, os bydd ei hangen, wedi'i threfnu dros dro ar gyfer mis Ionawr 2019. Gall yr ExA hefyd gyhoeddi cais penodol am wybodaeth gan bartion a enwir, os bydd angen.

Rhoddodd **JD** wybod i'r partïon mai Terfyn Amser 2 yw dydd Mawrth 4 Rhagfyr 2018. Erbyn Terfyn Amser 2, bydd yr ExA yn disgwyl i'r Datganiadau Tir Cyffredin a Datganiad o Gyffredinedd Datganiadau Tir Cyffredin gael eu cyflwyno, ymhlith pethau eraill. Mae Datganiad Tir Cyffredin yn cael ei lunio ar y cyd gan yr Ymgeisydd a pharti arall â buddiant (corff statudol, fel arfer) ac mae'n nodi'r meysydd y mae'r partïon yn cytuno a/neu'n anghytuno arnynt. Mae Datganiadau Tir Cyffredin yn ddefnyddiol, hyd yn oed os nad oes llawer o feysydd sy'n destun anghydfod, gan eu bod yn galluogi'r Panel i amlygu materion nad ydynt yn destun anghydfod neu nad oes angen mwy o dystiolaeth amdanynt.

Dyweddodd **JD** fod y Panel yn ymwybodol bod yr Ymgeisydd wrthi'n paratoi Datganiadau Tir Cyffredin â nifer o sefydliadau, a gellir cael mwy o fanylion am y rhain yn y Datganiad o Sefyllfa ynghylch Datganiadau Tir Cyffredin [APP-443/8.25] a gyflwynwyd gyda'r cais.

Dyweddodd **JD** fod y Panel wedi gofyn i'r Ymgeisydd, yn Atodiad E y llythyr Rheol 6, ystyried cyflwyno Datganiad Tir Cyffredin gyda sefydliadau sy'n cynrychioli'r iaith Gymraeg ac sydd wedi cyflwyno Cynrychiolaeth Berthnasol. Nododd **JD** fod gohebiaeth ddiweddar gan yr Ymgeisydd yn dangos ei fod wedi dechrau'r broses hon.

Yna, gofynnodd **JD** i'r Ymgeisydd, mewn perthynas â phwynt 22 ei lythyr dyddiedig 16 Hydref 2018, sut y dewisodd y 3 sefydliad i lunio Datganiad Tir Cyffredin drafft â nhw ynglŷn â'r iaith Gymraeg, gan fod yr ExA yn nodi bod sefydliadau eraill sydd wedi gwneud cynrychiolaethau hefyd.

Dyweddodd **APP** y byddai angen iddo dderbyn cyfarwyddyd ynglŷn â sut yr amlygwyd y tri sefydliad a gofynnodd a ellid rhoi mwy o amser iddo i lunio ymateb. Cytunodd **JD** ac awgrymodd y gallai'r Ymgeisydd ddymuno cydlynu â Chyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Gwynedd wrth ymateb i'r cwestiwn hwn.

Dyweddodd **JD** y gellid ychwanegu at y rhestr o Ddatganiadau Tir Cyffredin yn ystod yr Archwiliad, ac na ddylid ystyried ei bod yn atal unrhyw barti â buddiant na'r Ymgeisydd rhag llunio Datganiad Tir Cyffredin nad yw eisoes wedi cael ei amlygu.

Gofynnodd **JD** i'r Ymgeisydd gyflwyno Datganiad o Gyffredinedd Datganiadau Tir Cyffredin, sy'n darparu rhestr lawn o'r holl Ddatganiadau Tir Cyffredin a'u statws cyfredol; yr hyn y cytunwyd arno; yr hyn sy'n parhau i fod heb ei gytuno a therfyn amser dangosol ar gyfer pryd y gellid disgwyl cytundeb. Mae'r holl ddogfennau hyn yn rhai 'byw', ac mae'r Panel yn disgwyl y byddant yn newid wrth i drafodaethau symud ymlaen. O ganlyniad, mae'r ExA wedi gofyn am ddiweddariad erbyn Terfyn Amser 5 ac i Ddatganiadau Tir Cyffredin a Datganiad Cyffredinedd terfynol gael eu cyflwyno erbyn Terfyn Amser 8.

Dyweddodd **JD** y bydd angen i Bartïon â Buddiant gyflwyno eu Cynrychiolaethau Ysgrifenedig erbyn Terfyn Amser 2 hefyd. Mae hyn yn gyfle i bartïon gyflwyno eu hachos ac ymhelaethu ar unrhyw safbwyntiau a fynegwyd yn eu Cynrychiolaethau Perthnasol. Mae cyngor ar hyn, a materion eraill sy'n ymwneud â'r Archwiliad, ar gael yn Nodyn Cyngor 8 yr Arolygiaeth Gynllunio (*Trosolwg o'r broses cynllunio seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol i aelodau'r cyhoedd a phobl eraill*) sydd ar gael ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/wp-content/uploads/2013/04/Advice-note-8.0-welsh.pdf>

Ychwanegodd **JD** os bydd partïon eisiau siarad yn unrhyw un o'r Gwrandawiadau neu fynychu Archwiliad Safle gyda Chwmni, y bydd angen iddynt roi gwybod i'r Arolygiaeth Gynllunio yn ysgrifenedig erbyn Terfyn Amser 2. Erbyn y Terfyn Amser hwn, bydd y Panel hefyd yn disgwyl i'r ymateb i gwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr ExA ac Adroddiadau ar yr Effaith Leol gael eu cyflwyno.

Esboniodd **JD** fod Adroddiadau ar yr Effaith Leol yn cael eu paratoi gan awdurdodau lleol y mae'r cais yn effeithio arnynt. Maen nhw'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu gwybodaeth leol ac amlinellu'r effeithiau cadarnhaol a negyddol y byddai'r cynnig yn eu cael, yn eu barn nhw, ar yr ardal leol a chymunedau. Rhoddir statws arbennig i Adroddiadau ar yr Effaith Leol ac, ar yr amod y'u cyflwynir erbyn y terfyn amser a gytunwyd, mae'n rhaid i'r ExA eu hystyried.

Gofynnodd **JD** i'r Ymgeisydd nodi'r cais am gyflwyno Atodlen Caffael Gorfodol ac Atodlen Mesurau Lliniaru. Mae'r dogfennau hyn wedi bod yn ddefnyddiol mewn archwiliadau eraill trwy roi diweddariad ar gynnydd trafodaethau ynglŷn â'r materion 'byw' hyn. Byddai Atodlen Caffael Gorfodol yn rhoi diweddariad ar wrthwynebiadau a chytundebau cyfredol ynglŷn â'r tir y mae'r Ymgeisydd eisiau ei gaffael yn orfodol a lle y cwblhawyd trafodaethau'n llwyddiannus.

Esboniodd **JD** y byddai Atodlen Mesurau Lliniaru yn debyg iawn i'r Map Llwybr Mesurau Lliniaru y mae'r Ymgeisydd eisoes wedi'i gyflwyno gyda'r cais. Fodd bynnag, byddai'n dwyn ynghyd yr holl fesurau lliniaru ymgorfforedig yn un ddogfen 'fyw', sy'n cyfleu'r cynnydd sy'n cael ei wneud ac yn rhoi diweddariad unigol i'r Panel ar statws trafodaethau; lle y daethpwyd i gytundeb a'r hyn sy'n parhau i fod heb ei gytuno.

Esboniodd **JD** fod yr amserlen ddrafft yn dangos bod yr ExA yn gofyn i'r Atodlen Caffael Gorfodol gael ei diweddaru erbyn Terfynau Amser 3, 4 a 5, ac i fersiwn derfynol gael ei chyflwyno erbyn Terfyn Amser 8; mae hefyd yn gofyn i'r Atodlen Mesurau Lliniaru gael ei diweddaru erbyn Terfyn Amser 5 ac i'r atodlen derfynol gael ei chyflwyno erbyn Terfyn Amser 7.

Gofynnodd **JD** i'r partïon adolygu'r holl eitemau eraill o dan Derfyn Amser 2, a nodi unrhyw sylwadau yr hoffent eu gwneud, o bosibl. Mae wyth terfyn amser arall erbyn pryd y bydd angen cyflwyno gwybodaeth i'r Panel. Gofynnodd **JD** i'r partïon adolygu gofynion y terfynau amser a nodi unrhyw sylwadau yr hoffent eu gwneud, o bosibl.

Esboniodd **JD** y gellir cyhoeddi Adroddiad ar yr Effaith ar Safleoedd Ewropeaidd pan fydd effeithiau arwyddocaol tebygol ar safleoedd o'r fath. Os nad oes effeithiau o'r fath, bydd Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol yn cael ei gyhoeddi. Diben Adroddiad ar yr Effaith ar Safleoedd Ewropeaidd yw amlinellu'r hyn y cytunwyd arno a'r hyn sy'n parhau i fod yn ddadleuol o ran safleoedd o arwyddocâd Ewropeaidd a'u nodweddion gwarchoddedig – ni fwriedir iddo lunio barn am rinweddau'r cais.

Dywedodd **JD** fod eitem 25 ar yr amserlen ddrafft yn dangos y byddai'r Adroddiad ar yr Effaith ar Safleoedd Ewropeaidd yn cael ei gyhoeddi ddydd Mercher 27 Mawrth 2019, ac y disgwyliid sylwadau arno erbyn Terfyn Amser 9, sef dydd Mercher 10 Ebrill 2019.

Dywedodd **JD** fod yr ExA yn argymhell bod yr Ymgeisydd yn cyflwyno canllaw i'r cais erbyn pob terfyn amser. Dogfen ymarferol yw hon sy'n darparu rhestr â chod lliw o'r dogfennau a gyflwynwyd ar y dyddiad hwnnw; yn nodi rhifau dogfennau'r Ymgeisydd a'r Arolygiaeth ac yn dangos naill ai'r fersiwn ddiweddaraf neu ba bryd y cyflwynwyd dogfen newydd a pha ddogfennau y mae'n eu disodli.

6. Gwrandawiadau

Esboniodd **CS** fod modd cynnal gwahanol fathau o wrandawiadau yn ystod yr Archwiliad o dan PA2008:

- Gwrandawiadau Llawr Agored;
- Gwrandawiadau Mater Penodol; a
- Gwrandawiadau Caffael Gorfodol.

Gofynnodd **CS** i'r partïon nodi y bydd yr ExA yn bwriadu cyhoeddi agendâu ar gyfer pob gwrandawriad ar dudalennau seilwaith gwefan yr Arolygiaeth Gynllunio oddeutu 5 niwrnod cyn y gwrandawriad hwnnw. Yna, esboniodd **CS** ddiben y tri math o wrandawriad.

1. Gwrandawiadau Llawr Agored:

O dan a.93 Deddf Cynllunio 2008, mae'n rhaid i Wrlandawiadau Llawr Agored gael eu cynnal os bydd unrhyw Barti â Buddiant yn gofyn amdanynt. Diben y rhain yw galluogi pob Parti â Buddiant i wneud cynrychiolaethau llafar ynglŷn â'r cais. Fel y cyfryw, mae'r pynciau mewn Gwrandawriad Llawr Agored yn amrywiol iawn fel arfer. Dylai

unrhyw un sy'n siarad mewn Gwrandawriad Llawr Agored ddisgwyl i'r Panel ofyn cwestiynau iddo ynglŷn â'i gynrychiolaeth.

Dylai ceisiadau gan Bartion â Buddiant i siarad mewn unrhyw Wrandawriad Llawr Agored yn y dyfodol gael eu cyflwyno erbyn Terfyn Amser 2, sef 4 Rhagfyr 2018.

2. Gwrandawiadau Mater Penodol:

Cynhelir Gwrandawiadau Mater Penodol os bydd y Panel yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i sicrhau bod y mater dan sylw'n cael ei archwilio'n ddigonol, neu i sicrhau bod Parti â Buddiant yn cael cyfle teg i gyflwyno ei achos.

3. Gwrandawiadau Gorchymyn Caniatâd Datblygu:

Cynhelir y rhain sawl gwaith yn ystod yr Archwiliad i ystyried diwygiadau i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft.

Dywedodd **CS** y byddai'r Gwrandawriad Mater Penodol cyntaf yn cael ei gynnal drannoeth (23 Hydref 2018) ac y byddai'n ymdrin â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft. Diben y gwrandawriad fyddai deall sut y bwriedir i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft weithio a phryderon posibl y partion amrywiol ynglŷn ag ef.

Esboniodd **CS** fod Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn dechrau fel dogfen yr Ymgeisydd, ond mae'n rhaid i'r ExA fynd i'r afael â'i gynnwys a gwneud argymhellion ynglŷn ag ef, ni waeth p'un a yw'n argymhell y dylai'r cynllun arfaethedig gael ei dderbyn ai peidio. Mae'n bwysig deall na fydd unrhyw barti dan anfantais o ganlyniad i'r trafodaethau ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft, gan ei fod yn fater y mae'n rhaid i'r ExA fynd i'r afael ag ef yn ysgrifenedig yn ei adroddiad. Anogir pob parti i wneud sylwadau ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft hyd yn oed os yw'n gwrthwynebu'r cynnig ei hun.

Gofynnodd **CS** i unrhyw barti sy'n dymuno siarad mewn unrhyw Wrandawriad Mater Penodol yn y dyfodol ynglŷn â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu roi gwybod i'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn Terfyn Amser 2, sef 4 Rhagfyr 2018.

Esboniodd **CS** y disgwylir i Wrandawiadau Mater Penodol eraill gael eu cynnal yn ystod y pythefnos a neilltuwyd ar gyfer gwrandawiadau ym mis Ionawr a mis Mawrth 2019, ac y byddai manylion y Gwrandawiadau Mater Penodol hyn yn cael eu rhoi i Bartion â Buddiant a'r Ymgeisydd yn unol â hynny. Dylid rhoi gwybod am ddymuniad i siarad mewn unrhyw Wrandawriad Mater Penodol yn y dyfodol erbyn Terfyn Amser 2, sef 4 Rhagfyr 2018.

Esboniodd **CS** fod rhaid i wrandawiadau Caffael Gorfodol gael eu cynnal os bydd unrhyw un yr effeithir arno'n gofyn amdanynt. Mae'r ExA yn disgwyl i'r gwrandawiadau hyn gael eu cynnal yn ystod yr ail wythnos a neilltuwyd

(Mawrth 2019). Tynnodd **CS** sylw'r partion at y terfyn amser ar gyfer rhoi gwybod i'r Panel am eu dymuniad i gael gwrandawriad Caffael Gorfodol erbyn Terfyn Amser 2, sef 4 Rhagfyr 2018.

Dyweddodd **CS** fod manylion yr holl ddyddiadau hyn, gan gynnwys y dyddiadau erbyn pryd y mae'n rhaid i Bartion â Buddiant roi gwybod eu bod yn dymuno cael eu clywed mewn unrhyw Wrandawriad Llawr Agored, Gwrandawriad Mater Penodol neu Wrandawriad Caffael Gorfodol arall, wedi'u rhoi yn Atodiad C llythyr yr ExA, dyddiedig 25 Medi 2018. Ceir gofyn cwestiynau mewn unrhyw wrandawriad Mater Penodol neu Gaffael Gorfodol yn ôl disgrisiwn y Panel. Weithiau, gallai'r ExA benderfynu bod croesholi'n ddymunol mewn gwrandawriad penodol hyd yn oed os nad oedd wedi cael cyflwyniadau ar y pwynt penodol hwnnw. Eglurodd **CS** na fyddai'r Panel yn gwneud unrhyw benderfyniadau yn y Gwrandawriad Rhagarweiniol, ac y byddai'n penderfynu ar yr ymagwedd briodol ar ddiwrnod y Gwrandawriad.

7. Archwiliadau Safle

Dyweddodd **JD** fod yr ExA wedi cynnal archwiliad safle di-gwmni ddydd Llun 22 Hydref 2018, pryd yr edrychwyd ar y safle a'r amgylchoedd o nifer o olygfannau, yr oeddent i gyd ar dir cyhoeddus. Y bwriad oedd i nodyn yn amlinellu'r hyn a welodd y Panel, a phryd, gael ei gyhoeddi ar wefan y prosiect yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

Dyweddodd **JD** fod yr ExA yn bwriadu cynnal Archwiliadau Safle Di-gwmni eraill yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, yn ogystal ag Archwiliad Safle gyda Chwmni. Mae'r ExA wedi neilltuo amser ar gyfer yr Archwiliad Safle gyda Chwmni hwn naill ai ym mis Ionawr (eitemau 8-12 ar yr amserlen ddrafft) neu ym mis Mawrth (eitemau 18-22 ar yr amserlen ddrafft). Un o nodau'r Archwiliad Safle gyda Chwmni fyddai galluogi'r Panel i weld ac ymweld â safleoedd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd.

Tynnodd **JD** sylw at Derfyn Amser 2 a gofynnodd i'r partion nodi cais am gyflwyno awgrymiadau ar gyfer lleoliadau/safleoedd i'r Panel eu cynnwys mewn Archwiliadau Safle Di-gwmni eraill neu yn yr Archwiliad Safle gyda Chwmni, gan gynnwys y materion i'w hystyried yno, gwybodaeth ynglŷn â ph'un a ellir cyrraedd y safle o dir cyhoeddus a'r rhesymau pam y byddai angen i'r Panel ymweld â phob safle a enwebwyd. Pan fydd gan y Panel y wybodaeth hon, bydd mewn sefyllfa i benderfynu ar yr adeg orau i gynnal yr Archwiliadau hyn.

